

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Orffennaf 2020

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Barbara Drake, Sian Godbert, Cyng Elisabeth Roberts CBS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerk.
Ymddiheuriad – Neil Pringle, Dyfed Jones, Nick Corney

Datgan diddordeb –Dim datganiad

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Chwefror 2020

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Dywedodd y clerc nad oedd wedi clywed oddiwrth Mrs Williams perchennog y tir ynlgun a lleoliad ar gyfer pont droed. Y clerc i gysylltu gyda Mr Elis Wynn perchennog y siop sglodion i geisio caniatâd ar gyfer pont ar leoliad o fewn ei eiddo.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Dywedodd y clerc yn dilyn ymholiadau gan y Cyng Neil Pringle nad oedd y trydanwr wedi medru cael golwg yn Cae Llan o ganlyniad i'r coronafeirws

[1.3] Gwelliannau/Mynwent Erw Hedd

Nodwyd bod y gwaith wedi dechrau.

[1.4] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.5] Pont y Mwynwyr

Cyfeiriodd y clerc at wybodaeth oddiwrth y Cyngor Sir yn amlinellu fod pont newydd yn cael ei dylunio.

[1.6]] Sir Conwy / Sir Dinbych Addewidion Gwyrdd I'r Gymuned

Penderfynwyd cefnogi ymgyrch Sir Conwy/Dinbych ar gyfer y 5 addewid gwyrdd.

[1.7] Banciau Ail Gylchu Ffordd yr Orsaf

Nodwyd y bydd y banciau ail gylchu yn parhau i fod yn Ffordd yr Orsaf.

Y brif Agenda

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod misoedd Chwefror/Mawrth/Ebrill/ Mai/ Mehefin 2020

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Chwefror 2020

[c] [1] Cymeradwywyd cyfrifon i ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20

[2] Archwiliad Mewnol - Nodwyd adroddiad boddhaol gan yr archwilydd mewnol i ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20

[d] Y ffurflen flynyddol . Cymeradwywyd y ffurflen flynyddol i ddiwedd Mawrth 2020.

[e] Adolygiad o'r Gyllideb. Gan na fu'n bosib i gynnal cyfarfod ym mis Mawrth o ganlyniad coronafirus, cyfeiriodd y clerc at adolygiad o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Cymeradwywyd adolygiad o'r gyllideb a baratowyd gan y clerc

[1.9] Materion Cofid 19

[a] Dywedodd y Cadeirydd fod posteri yn gofyn i'r cyhoedd gadw pellter cymdeithasol wedi ei gosod o gwmpas Cae Llan a'r Rhaeadr Ewynnol.

[b] Nodwyd fod yr asiant priffyrdd yn datgan mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir ydi gosod posteri ar ffordd yr A5.

[c] Dywedodd y clerc fod y toiledau yn Ffordd yr Orsaf yn agored ac y byddai'r toiledau Pont-y-Pair yn agor ar yr 20fed Orffennaf neu efallai'n gynt.

[2] Materion Cynllunio

[a] Gosod to gwydr, gydag ochrau agored. Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed

[b] Adeiladu estyniad dau lawr a garej. Tŷ Gethin, Bro Gethin, Pentre' Du.

[2.1] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy i geisio arweiniad pellach.

[2.2] Gosod Plac yn y Rhaeadr Ewynnol

Penderfynwyd gwrthod ceisiadau i osod plac yn y Rhaeadr Ewynnol

[2.3] Llosgi Ysbwriel tu cefn i'r Hen Lys

Nodwyd y cwynion bod perchennog yr hen lys yn llosgi ysbwriel yn cynnwys plastig yng ngefn yr adeilad . Cytunodd y Cyng E Roberts i wneud ymholiadau.

[2.4] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr Gwydyr

Cyfeiriodd y clerc at adroddiad fod cwmni Jones Bros wedi ei benodi fel y prif gontractwr yn Llyn Tynymynydd, a bod y gwaith o atgyweirio'r mynediad i'r goedwig wedi ei gwblhau. Bydd y gwaith ar y ffordd greigiog yn dechrau yn hwyrach yn y mis.

[2.5] Cau Pont-y-Pair

Gan nodi llu o gwynion pan i'r bont gael ei chau ar gyfer ffilmio. Penderfynwyd ystyried unrhyw gais yn y dyfodol yn sgil y problemau a gafwyd gyda Pont-y-Pair.

[2.6] Dosbarthu Gwybodaeth yn Lleol

Dywedodd y Cyng Barbara Drake y buasai'n syniad dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd trwy restr cyfeiriad/ facebook/ cylchlythyr chwarterol ayb. Cytunodd BD i ystyried ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cadeirydd _____

